100 CBHC RCAHMW

# ‘Worktown’: Lluniadau Falcon Hildred

# ‘Worktown’: The drawings of Falcon Hildred

Ers diwedd y 1950au, nod Falcon Hildred fu gwneud cofnod gweledol o adeiladau diwylliant diwydiannol a oedd yn prysur ddiflannu. Mewn llawer o ardaloedd, roedd yr hen ddiwydiannau’n methu, roedd cymunedau a oedd wedi’u hen sefydlu yn cael eu disodli gan gynlluniau tai enfawr ac roedd ailddatblygu trefol uchelgeisiol yn dechrau gafael. Ni allai Falcon wneud fawr ddim i atal hyn, ond fel dylunydd a darlunydd medrus gallai o leiaf sicrhau na fyddai adeiladau o’n gorffennol diwydiannol yn diflannu heb i ryw gofnod gael ei wneud ohonynt.

Pwrpas Prosiect Mynediad a Dysgu Falcon Hildred yw diogelu’r adnodd gwerthfawr hwn er mwynhad y cenedlaethau a ddaw, a hwyluso mynediad i’r casgliad drwy raglen gydgysylltiedig o ddigido, cyhoeddi, arddangos ac addysgu ar hyd a lled Cymru a Lloegr.

Since the late 1950s, Falcon Hildred’s mission has been to make a visual record of the buildings of a disappearing industrial culture. In many areas, old industries were collapsing, long-established communities were being replaced by mass housing schemes, and ambitious urban redevelopment was taking hold. Falcon could do little to halt this, but as a skilled designer and illustrator he could at least ensure that monuments of the industrial past did not disappear without a visual record.

The Falcon Hildred Access and Learning Project preserves this valuable resource for the enjoyment of future generations, and opens access to the collection through a co-ordinated programme of digitisation, publication, exhibition and education across England and Wales.



NPRN 305760 FHA 01/108

Chwith: **Stefan yn cynaeafu gwair, Pen-y-bryn, Blaenau Ffestiniog, 1993**
Tynnodd Falcon y llun hwn o gynaeafu gwair ar fferm ei gymydog. Byddai Stefan, y ffermwr, bob amser yn cynaeafu gwair yn y ffordd draddodiadol, gan dorri’r ymylon â phladur cyn dod â’r tractor, ynghyd â theulu a chyfeillion, i dorri’r canol.

Left: **Stefan haymaking, Pen-y-bryn, Blaenau Ffestiniog, 1993**
Falcon drew this scene of haymaking at his neighbour’s farm. Stefan, the farmer, always did his haymaking by the traditional method of cutting the edge with a scythe and then bringing the tractor in with family and friends to cut the middle.



FHA 03/62

Chwith: **Croesfan Pasture Street, Grimsby, 1978**
Mae’r llun hwn, wedi’i seilio ar arsylwadau a wnaed ym 1953, ac wedi’i dynnu ym 1978, yn cofnodi atgofion Falcon am y groesfan reilffordd ger y tŷ lle câi ei suo i gysgu gan sŵn yr injans yn siyntio pan oedd yn blentyn.

Left: **Pasture Street crossing, Grimsby, 1978**
This picture, based on observations in 1953 and drawn in 1978, captures Falcon’s memories of the railway crossing near the house where, as a child, he was lulled to sleep by the sound of engines shunting.




NPRN 305760 FHA 01/098

**Dymchwel Penygroes, 1982**
Roedd gweld adeiladau’n cael eu dymchwel yn olygfa gyffredin i Falcon wrth iddo gofnodi adeiladau mewn perygl. Roedd y rhes hon o dai chwarelwyr, o’r enw Penygroes, ychydig islaw ei gartref ym melin lechi Pant-yr-Ynn, Bethania, Blaenau Ffestiniog.

**Demolition of Penygroes, 1982**
A scene frequently captured during Falcon’s lifetime of documenting buildings at risk has been that of demolition in progress. This terrace of slate workers’ houses, known as Penygroes, was just below his home at Pant-yr-ynn mill in Bethania, Blaenau Ffestiniog.

Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, gan weithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Amgueddfa Ceunant Ironbridge, a chyda chymorth Cronfa Dreftadaeth y Loteri, wedi prynu casgliad unigryw o fwy na 600 o luniadau gwreiddiol o adeiladau a thirweddau diwydiannol gan Falcon Hildred.

The Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales, working in partnership with the Ironbridge Gorge Museum Trust and with support from the Heritage Lottery Fund, has acquired a unique collection of over 600 original drawings of industrial buildings and landscapes by Falcon Hildred.


Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
*Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru*
Plas Crug, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1NJ
*Ffôn/ Telephone:* 01970 621200

Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales
*National Monuments Record of Wales*
www.cbhc.gov.uk
www.rcahmw.gov.uk



Ironbridge
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government
heritage treftadaeth
LOTTERY FUNDED ARIENNIR GAN Y LOTERI